Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad Dilynol Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys


**Blwyddyn archwilio:** 2015

**Cyhoeddwyd:** Hydref 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 544A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Sara Utley oedd y sawl a gyflawnodd y gwaith.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi sylw i argymhellion i wella gwasanaethau arlwyo a maetheg. Mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau rhai agweddau ar y profiad amser bwyd, i reoli costau'n fwy effeithiol ac i wella'r broses o adrodd ar berfformiad.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cefndir | 4 |
| Ein canfyddiadau | 5 |
| Argymhellion | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Mae trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maeth cleifion yn gwella ond mae angen i gydymffurfiad â rowndiau diodydd a argymhellir wella | 9 |
| Ceir lle i wella profiadau amser bwyd i gleifion o hyd | 13 |
| Mae cost gwasanaethau arlwyo cleifion yn cynyddu er gwaethaf gostyngiad i archebion prydau bwyd, ac mae'r bwlch rhwng costau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion ac incwm yn rhy fawr o hyd | 17 |
| Mae angen i drefniadau ar gyfer adrodd ar arlwyo a maeth mewn ysbytai wella | 23 |
| Atodiadau | |
| Dull archwilio | 27 |
| Argymhellion cenedlaethol a lleol | 29 |

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1. Mae gwasanaethau arlwyo ysbytai'n rhan hanfodol o ofal cleifion o gofio bod prydau bwyd maethlon o ansawdd da yn rhan hanfodol o ofal cleifion o gofio bod prydau bwyd maethlon o ansawdd da yn chwarae rhan hollbwysig yn adsefydliad a gwellhad cleifion. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn dibynnu ar gynllunio cadarn a chydgysylltu amrywiaeth o brosesau sy'n cynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau i wardiau a chleifion. Mae angen cyfathrebiad da ar draws yr amrywiaeth o grwpiau staff dan sylw hefyd, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.
2. Mae angen asesu a monitro statws maeth cleifion yn briodol, a rhoi trefniadau ar waith i helpu cleifion i fwynhau eu prydau mewn amgylchedd sy'n ffafriol i fwyta. Gwasanaeth arlwyo cost-effeithiol sy'n darparu dewis da o brydau maethlon sy'n gallu bodloni gofynion deietegol penodol cleifion ddylai fod y canlyniad dymunol.
3. Yn 2010, cynhaliwyd archwiliadau arlwyo ysbytai a maeth cleifion lleol gennym ledled Cymru, i ddilyn gwaith a wnaed cynt gan y Comisiwn Archwilio yn 2002[1]. Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad[2], a oedd yn crynhoi'r canfyddiadau o'r gwaith hwn. Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod trefniadau arlwyo a gofal maethol a ddarperir i gleifion wedi gwella'n gyffredinol a bod bodlonrwydd cleifion yn dal i fod yn uchel. Fodd bynnag, roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod arfer da cydnabyddedig yn cael ei roi ar waith yn ehangach, yn enwedig o ran sgrinio maeth a chynllunio gofal, ac i sicrhau bod cyn lleied o wastraff bwyd â phosibl.
4. Yn ystod yr hydref yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Safonau Arlwyo a Maeth Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai. Mae'r safonau hyn yn disodli fframwaith maeth ac arlwyo 2002 ac yn cynnig canllaw technegol i aelodau staff sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion maeth cleifion[3]. Mae'r safonau hefyd yn nodi'r cynnwys maethol sydd ei angen i ddiwallu anghenion amrywiol y boblogaeth ysbytai. Roedd yn ofynnol i gyrff y GIG gydymffurfio'n llawn â'r safonau erbyn mis Ebrill 2014.
5. Er mwyn cefnogi cyflwyniad y safonau, gweithiodd arlwywyr a deitegwyr ledled Cymru gyda'i gilydd i lunio Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan, a lansiwyd ddiwedd mis Ionawr 2014. Mae'r Fframwaith yn cynnwys cronfa ddata o gyfres o eitemau bwydlen y cytunwyd arnynt, cyfres safonol o ryseitiau a dulliau coginio, dadansoddiad maethol o bob eitem ar y fwydlen ac amrywiaeth o fyrbrydau sy'n cydymffurfio â'r safon, sy'n cael eu caffael trwy gontractau Cymru gyfan.

---

[1] Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, **Portffolio Ysbytai Aciwt – Adolygiad o ganfyddiadau cenedlaethol ar arlwyo**, Mawrth 2002

[2] Swyddfa Archwilio Cymru, Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai, Mawrth 2011

[3] Nod y safonau maeth ac arlwyo yw diwallu anghenion maeth cleifion sy'n gallu bwyta ac yfed. Nid yw'r safonau hyn yn berthnasol i gleifion sy'n derbyn maeth trwy wythïen neu gyda thiwb, sef maetholion a ddarperir yn fewnwythiennol neu'n uniongyrchol i'r system gastroberfeddol.

6. Mae’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cynnal diddordeb brwd yn y materion a amlygwyd gan waith yr Archwilydd Cyffredinol, gan gymryd tystiolaeth gan dystion a chyhoeddi ei adroddiad ei hun ym mis Chwefror 2012[4]. Yn 2014, gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol ymrwymiad i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai’n gwneud gwaith dilynol priodol i fonitro sut y mae cyrff y GIG wedi bwrw ymlaen â’i argymhellion cenedlaethol a lleol. Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys cymryd i ystyriaeth canfyddiadau unrhyw waith dilynol a wnaed wedi hynny mewn cyrff GIG ers 2010.

# Ein prif ganfyddiadau

7. Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015, gwnaed gwaith dilynol gennym ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ( y Bwrdd Iechyd) i asesu i ba raddau yr oedd wedi rhoi argymhellion cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar waith[5]. Aseswyd gennym hefyd i ba raddau yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi rhoi sylw i’r argymhellion a wnaed yn rhan o’r archwiliad lleol yn 2010 ac eto yn 2014.

8. Daethom i’r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i’r afael ag argymhellion i wella gwasanaethau arlwyo a maeth. Mae angen gwneud mwy o waith i gryfhau rhai agweddu ar y profiad amser bwyd, i reoli costau’n fwy effeithiol ac i wella’r broses o adrodd ar berfformiad. Daethom i’r casgliad hwn oherwydd:

- Bod trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maeth cleifion yn gwella ond mae angen i gydymffurfiad â rowndiau diodydd a argymhellir wella:
  - caiff cleifion eu sgrinio’n faethol ac mae newidiadau i ddogfennau nyrsio wedi gwella ansawdd y wybodaeth a gofnodir;
  - caiff cydymffurfiad â’r llwybr gofal maeth ei asesu fel mater o drefn ac mae cydymffurfiad ar y cyfan yn gyffredinol dda;
  - mae trefniadau cyfredol yn sicrhau bod gan gleifion fynediad at fwyd 24 awr y dydd ond nid yw pob ward yn cynnig i nifer o rowndiau diodydd a argymhellir;
  - caiff eitemau bwydlen eu hasesu’n faethol trwy fframwaith bwydlenni Cymru gyfan y mae’r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio ag ef; ac
  - mae gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion am yr hyn i’w ddisgwyl yn yr ysbyty ar gael.
- Ceir lle i wella profiadau amser bwyd i gleifion o hyd:
  - mae cleifion yn gadarnhaol am wasanaethau bwyd yn gyffredinol;
  - caiff cleifion eu cynorthwyo’n dda amser prydau bwyd, ond gellir gwneud mwy i baratoi amgylchedd y ward; ac
  - nid yw egwyddorion amser bwyd wedi’i ddiogelu wedi’u hymsefydlu ym mhobman.

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**, Chwefror 2012
[5] Nodir ein dull archwilio yn Atodiad 1. Mae cwmpas y gwaith archwilio’n ymwneud yn benodol â chleifion mewnol sy’n oedolion sy’n gallu bwyta ac yfed yn normal.

- Mae cost gwasanaethau arlwyo cleifion yn cynyddu er gwaethaf gostyngiad i archebion prydau bwyd, ac mae'r bwlch rhwng costau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion ac incwm yn rhy fawr o hyd:
  - mae costau prydau cleifion yn cynyddu ac roeddent yn fwy na'r targed beunyddiol er gwaethaf gostyngiadau i nifer y ceisiadau am brydau;
  - mae gwastraff bwyd heb ei weini yn bodloni'r targed cenedlaethol; ac
  - mae gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion yn gwneud colled ac, er ei bod yn gostwng, mae lefel y cymorthdaliadau yn dal i fod yn rhy fawr.
- Mae angen i drefniadau ar gyfer adrodd ar arlwyo a maeth mewn ysbytai wella:
  - mae trefniadau ar waith i sicrhau y rhoddir polisïau a safonau cenedlaethol ar waith ond mae strwythurau llywodraethu'n cael eu hadolygu;
  - mae gwaith adrodd y Bwrdd yn dibynnu ar yr Archwiliad Hanfodion Gofal; ac
  - mae adborth cleifion i gefnogi'r gwaith o adrodd ar berfformiad yn gyfyngedig.

**9.** Caiff canfyddiadau manwl o'r gwaith archwilio eu crynhoi ym mhrif ran yr adroddiad hwn.

## Argymhellion

**10.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni 24 argymhelliad yn llawn o 37 a wnaed yn 2010, 2011 a 2013. Cafodd rhai argymhellion eu gogynnwys yng ngwaith dilynol 2014, ac felly rhestrir 10 argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio arnynt isod. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gadw pwyslais ar weithredu'r argymhellion sy'n weddill lle dywedir bod cynnydd ar y trywydd iawn, ond nid yw wedi'i gwblhau eto, neu le'r ydym o'r farn bod cynnydd annigonol neu ddim cynnydd wedi cael ei wneud. Nodir yr argymhellion hyn yn Arddangosyn 1. Ceir rhestr lawn o'r argymhellion cenedlaethol a lleol, ynghyd â statws pob argymhelliad, yn Atodiad 2.

## Arddangosyn 1: Argymhellion cenedlaethol a lleol sydd dal heb eu cyflawni ym mis Gorffennaf 2015

| Argymhellion | |
|---|---|
| **Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu** | |
| A4 | Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni gofynion hyfforddiant maeth e-ddysgu cenedlaethol. Mae angen datrys materion fel mynediad at TG ac argaeledd staff ar gyfer hyfforddiant. (Lleol 2014) |
| **Gwella profiad amser bwyd cleifion** | |
| A3c | Dylai cyrff y GIG barhau i gyflwyno'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu i gymaint o wardiau â phosibl, gan gyfleu ei bwysigrwydd i bob grŵp staff perthnasol sy'n gweithio yn yr ysbyty, ac adolygu cydymffurfiaeth â'r polisi'n rheolaidd. (Cenedlaethol) |
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | |
| A2 | Gwella'r hysbysu parhaus am gostau arlwyo ar lefel safle Bwrdd Iechyd i sicrhau:<br>• Bod costau cyffredinol a chostau fesul claf yn fwy cyson ar draws safleoedd ac yn agosach at gostau targed.<br>• Bod costau cynhyrchion ac adnoddau yn cael eu cyfnerthu a'u cydgysylltu'n well yn ganolog.<br>• Nad yw cyfanswm costau arlwyo yn uwch na'r gyllideb a fwriadwyd a bod gwelliannau cost yn cael eu cyflawni. Dylai gwelliannau cost ddod o well rheolaeth o wariant, gwastraff ac effeithlonrwydd, heb arwain at unrhyw ddirywiad i ansawdd y maeth a ddarperir i gleifion. (Lleol 2014) |
| A4b | Dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, wedi'u hategu gan ddadansoddiad clir o gost a budd o'u cymharu â'r systemau gwybodaeth presennol â llaw. (Cenedlaethol) |
| A7a | Dylai cyrff y GIG bennu polisïau prisio a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn adennill costau o leiaf, neu, os nad ydynt yn gwneud hynny, bod hynny o ganlyniad i bolisi cymorthdalu bwriadol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gostau. (Cenedlaethol) |
| A7b | Dylai cyrff y GIG fonitro incwm a gwariant ar wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn perfformio'n ariannol yn ôl y disgwyl ac nad oes diffygion ariannol annerbyniol. (Cenedlaethol) |
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol** | |
| A10a | Dylai cyrff y GIG ddatblygu ffordd fwy cynhwysfawr o gofnodi perfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion i'r Bwrdd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am weithredu'r llwybr gofal maeth a data perfformiad ar gostau gwasanaethau i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, gwastraff bwyd, ac adborth gan gleifion a'u perthnasau; dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai wneud defnydd priodol o ddata meincnodi'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau. (Cenedlaethol) |

## Argymhellion

**Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol**

A10b Dylai cyrff y GIG goladu gwybodaeth o sgrinio maethol yn systematig am nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth er mwyn deal maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau arlwyo a maeth i ddiwallu anghenion y cleifion hyn. (Cenedlaethol)

A11b Dylai cyrff y GIG ddangos sut y maent wedi ystyried barn cleifion wrth ddatblygu eu gwasanaethau arlwyo a maeth. (Cenedlaethol)

A11c Dylai cyrff y GIG bennu ffyrdd o gynnwys cleifion mewn gweithgareddau sy'n asesu ansawdd gwasanaethau arlwyo a maeth. (Cenedlaethol)

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maeth cleifion yn gwella ond mae angen i gydymffurfiad â rowndiau diodydd a argymhellir wella

**11.** Yn 2010, roedd llawer o ysbytai yng Nghymru wedi gwella eu trefniadau i sicrhau bod anghenion maeth cleifion yn cael eu diwallu, ond roedd y wybodaeth yn ddarniog ac nid oedd yn caniatáu trosolwg cyflym o broblemau maeth cleifion nac i adolygu statws maeth yn rhwydd. Efallai fod y diffyg dogfennau nyrsio safonol i gofnodi gwybodaeth asesu allweddol wedi cyfrannu at yr amrywiad o ran ansawdd y cofnodion nyrsio. Nid oedd pob corff GIG yn monitro cydymffurfiad â'r llwybr gofal maeth yn rheolaidd.

**12.** Rodd sgrinio maeth ar waith yn y Bwrdd Iechyd ac mae'r rhan fwyaf o gleifion yn cael prawf sgrinio maeth o fewn 24 awr o gael eu derbyn ac mae cynlluniau gofal maeth wedi'u sefydlu ar gyfer cleifion sydd eu hangen, a chymeriant bwyd a diod yn cael ei fonitro'n briodol. Fodd bynnag, canfuwyd bod trefniadau yn Ysbyty Coffa Fictoria yn y Trallwng yn wan. Canfu ein gwaith archwilio dilynol yn 2014 bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da i fynd i'r afael â'r problemau hyn, gan gyflwyno'n benodol gwasanaeth amser bwyd dan arweiniad tîm, sy'n sicrhau bod cleifion yn cael eu paratoi ar gyfer prydau bwyd ac yn derbyn y cymorth gofynnol.

### Caiff cleifion eu sgrinio'n faethol ac mae newidiadau i ddogfennau nyrsio wedi gwella ansawdd y wybodaeth a gofnodir

**13.** Adolygwyd cyfres o nodiadau achos gennym ym mhedwar o'r Ysbytai Cymuned yn rhan o'n gwaith yn 2015, sy'n gyfanswm o 20 o nodiadau achos. Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod, Ysbyty Coffa'r Rhyfel Aberhonddu, Ysbyty Coffa Fictoria ac Ysbyty Trefyclo. Aseswyd a oedd staff nyrsio'n sgrinio cleifion yn faethol wrth ei derbyn ac yn ailadrodd hynny bob wythnos o leiaf, yn ogystal ag ansawdd y broses sgrinio maeth. Canfuwyd gennym fod staff nyrsio'n sgrinio ac yn ail-sgrinio cleifion fel mater o drefn, gan ddefnyddio'r Dull Sgrinio Cyffredinol Diffyg Maethiad (MUST).[6] Canfuwyd gennym nad oedd mynegai màs y corff wedi cael ei gofnodi yn nau o'r 20 o nodiadau achos a bod un cofnod taldra yn anghyflawn.

**14.** Mae Safonau Arlwyo a Maeth Cymru Gyfan yn ei gwneud yn eglur bod iechyd y geg a chyfathrebu yn rhan o ofal maeth. Canfu ein hadolygiad wybodaeth am iechyd y geg wedi'i chofnodi yn 19 o'r 20 o nodiadau achos ac asesiad o gyfathrebiad yn yr 20 o nodiadau achos. Mae ein canfyddiadau'n dangos gwelliant pendant o ganfyddiadau archwiliad Hanfodion Gofal 2014.[7] Roedd anghenion iechyd y geg 78 y cant o gleifion wedi cael eu hasesu ar yr adeg honno. Roedd hyn yn welliant sylweddol o'r flwyddyn cynt pan aseswyd 36 y cant o gleifion yn unig. Mae iechyd y geg yn parhau i fod yn

[6] Dull sgrinio pum cam yw'r Dull Sgrinio Cyffredinol Diffyg Maethiad, i nodi oedolion sydd â diffyg maethiad, sydd mewn perygl o ddioddef diffyg maethiad (tanfaethiad), neu'n ordew. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau rheoli y gellir eu defnyddio i ddatblygu cynllun gofal.
[7] Cynhaliwyd yr Archwiliad Hanfodion Gofal rhwng Hydref a Thachwedd 2014.

faes i'w wella, ac mae dogfennau nyrsio diwygiedig, a lansiwyd ym mis Chwefror 2015, wedi gwella'r pwyslais ar hylendid y geg.

**15.** Ym mis Chwefror 2015, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddogfennau nyrsio newydd i sicrhau bod gwybodaeth allweddol am gleifion yn cael ei chasglu. Mae'r dogfennau newydd hyn yn gofyn am wybodaeth yn ymwneud â maeth, cyfathrebu a llyncu, yn ogystal ag archwaeth, dymuniadau deietegol ac angen deietegol arbennig, therapiwtig neu ddiwylliannol presennol. Fe'n hysbyswyd gan staff y ward bod y dogfennau newydd yn welliant mawr. Canfu ein hadolygiad o nodiadau achos bod dogfennau nyrsio wedi'u cwblhau'n dda yn gyffredinol, a oedd yn galluogi i wybodaeth gael ei chanfod yn gyflym. Canfuwyd gennym mai dim ond un o'r 20 o nodiadau achos nad oedd yn cofnodi gofynion therapiwtig, ffordd o fyw neu ddiwylliannol presennol claf o ran bwyd a diod, ac nid oedd un o'r 20 o nodiadau achos yn cofnodi cymeriant deietegol arferol claf.

**16.** Hefyd, canfu Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol diweddar gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn Ysbyty Coffa'r Rhyfel Llanidloes ym mis Chwefror 2015 bod asesiadau maeth a dogfennau nyrsio wedi'u cwblhau'n briodol.

**17.** Mae cynlluniau gofal templed a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer maeth a hydradu ar waith ar draws pob ysbyty. Mae'r staff nyrsio yn defnyddio'r templedi cynlluniau gofal hyn yn gyson ar y wardiau i ni ymweld â nhw. Canfu ein hadolygiad o nodiadau achos bod cynlluniau gofal maeth ar waith ar gyfer pob claf yr ystyriwyd ei fod mewn perygl ac eithrio un. Defnyddir siart bwyd Cymru gyfan ar gyfer cleifion, yn ôl y gofyn, yn seiliedig ar eu hasesiad maeth.

**18.** Mae gan y Bwrdd Iechyd amrywiaeth o ddulliau ar waith i nodi'r cleifion hynny sydd angen help i fwyta ac yfed. Mae'r rhain yn cynnwys y cynllun pili-pala ar gyfer y cleifion hynny â phroblem wybyddol a'r hysbysfyrddau cipolwg ar gleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio 'hambyrddau coch' i nodi cleifion sydd angen cymorth amser prydau bwyd neu y dylid cofnodi faint o fwyd y maent yn ei fwyta.

## Caiff cydymffurfiad â'r llwybr gofal maeth ei asesu fel mater o drefn ac mae cydymffurfiad ar y cyfan yn gyffredinol dda

**19.** Yn 2010, ni wnaeth pob corff GIG fonitro cydymffurfiad â'r llwybr gofal maeth ac argymhellwyd gennym y dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno trefniadau ar gyfer asesu cydymffurfiad fel mater o drefn. Erbyn 2014, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno archwiliadau 360 gradd. Mae tîm amlddisgyblaeth, yn cynnwys nyrsys a staff deieteteg a chyfleusterau, yn asesu cydymffurfiad yn erbyn rhestr wirio o ffactorau. Canfu ein hadolygiad diweddaraf bod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau'r dull 360 gradd. Mae adborth cleifion yn rhan o'r broses archwilio erbyn hyn, ac mae staff ward yn derbyn adborth prydlon.

**20.** Mae'r dull archwilio 360 gradd yn asesu pa un a:

- oes byrbrydau a diodydd ar gael;
- yw cleifion yn cael eu helpu i baratoi ar gyfer amser bwyd;
- yw'r holl staff nyrsio'n gwneud eu hunain ar gael i helpu amser bwyd;

- yw sgrinio maeth yn digwydd o fewn 24 awr i dderbyn y claf;
- yw cegin y ward yn bodloni safonau hylendid;
- yw tymheredd bwyd yn cael eu cofnodi cyn i brydau bwyd adael y brif gegin;
- yw gwastraff bwyd heb ei gyffwrdd yn cael ei gofnodi;
- y cydymffurfir ag egwyddorion amser bwyd wedi'i ddiogelu; ac
- adborth cleifion.

Mae amserlen archwiliadau yn sicrhau sylw priodol ar draws holl safleoedd ysbyty.

**21.** Mae deietegwyr, sy'n rhan o dîm archwilio 360 gradd ynghyd â chynrychiolwyr nyrsio a chyfleusterau, yn cynnal archwiliadau cydymffurfiad o sgrinio maeth. Mae cydymffurfiad cyffredinol yn dda, er bod deietegwyr yn poeni nad yw nyrsys bob amser yn cael cofnod cywir o faint o fwyd sy'n cael ei fwyta gan gleifion. Fe'n hysbyswyd gan ddeietegwyr yr hoffent gynnal mwy o adolygiadau o'r siartiau bwyd er mwyn gwella arfer ar wardiau, ond mae diffyg staff a gwasgariad daearyddol yr ysbytai yn gwneud hyn yn anodd ei weithredu.

**22.** Caiff cydymffurfiad â sgrinio maeth ei fonitro yn rhan o ddangosfwrdd nyrsio Cymru Gyfan, ac mae pob ward cleifion mewnol yn cynnal asesiad bob mis. 93 y cant oedd y cydymffurfiad cyffredinol yn ystod 2014-15, ond roedd cyfraddau cydymffurfio'n codi a gostwng rhwng 86 y cant a 95 y cant ac roedd rhai ysbytai'n sicrhau cydymffurfiad llawn yn rheolaidd. Mae timau nyrsio ardal yn crynhoi ac adolygu'r canlyniadau, ond ni chyflwynir gwybodaeth am gydymffurfiad i'r Bwrdd na'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

**23.** Yn 2010, nid oedd unrhyw raglenni hyfforddiant rheolaidd na hyfforddiant diweddaru i staff wardiau gynnal ymwybyddiaeth o'r defnydd o ddulliau sgrinio maeth a dogfennau asesu. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru becyn e-ddysgu ar gyfer llwybr gofal maeth Cymru gyfan a siartiau bwyd a hylif Cymru gyfan ym mis Medi 2011. Roedd yn ofynnol i'r holl staff nyrsio ac sy'n gweithio ar wardiau gwblhau'r pecyn e-ddysgu o fewn blwyddyn o'r dyddiad hwn, a dylai staff newydd ei gwblhau o fewn blwyddyn o gael eu penodi.

**24.** Mae data diweddar yn dangos mai dim ond 25 y cant o staff nyrsio sy'n cydymffurfio â'r hyfforddiant. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dynodi bod monitro lleol ar lefel ward yn dangos bod cydymffurfiad yn uwch na'r ffigurau a gasglwyd ac a adroddwyd drwy'r system cofnodion staff electronig. Fe'n hysbyswyd gan staff ward bod ganddynt nifer gynyddol o raglenni e-ddysgu i'w cwblhau a bod dod o hyd i'r amser a chyfrifiadur i gwblhau'r rhaglenni hyn yn y gwaith yn anodd. Mynegwyd pryderon hefyd am ansawdd yr hyfforddiant a pha un a oedd yn arwain at newidiadau cadarnhaol i arfer clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd yr hyfforddiant hwn ac mae gan reolwyr nyrsio gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â chydymffurfiad gwael ac roedd camau'n cael eu hadolygu ar adeg yr archwiliad.

**25.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i sicrhau bod staff arlwyo'n derbyn hyfforddiant ar hylendid bwyd sy'n cyd-fynd â'u swyddogaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu 'sgyrsiau pecyn cymorth' ar agweddau ar faeth a hylendid bwyd ar gyfer staff nyrsio ar wardiau.

## Mae trefniadau cyfredol yn sicrhau bod bwyd ar gael i gleifion 24 awr y dydd ond nid yw pob ward yn cynnig y nifer o rowndiau diodydd a argymhellir

**26.** Canfuwyd gennym yn 2010 bod gan y rhan fwyaf o ysbytai drefniadau ar waith i ddarparu byrbrydau, ond dywedodd llawer o gleifion nad oedd byrbrydau ar gael rhwng prydau bwyd. Mae Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan yn nodi y dylid cynnig byrbrydau dwy neu dair gwaith y dydd ac y dylid cynnig byrbrydau fin nos i bob claf oherwydd y bwlch hir rhwng cinio'r hwyr a brecwast.

**27.** Yn y Bwrdd Iechyd, mae byrbrydau ar gael rhwng prydau bwyd ac i gleifion sy'n methu pryd bwyd. Caiff amrywiaeth o fyrbrydau, fel bisgedi, ffrwythau ffres, iogwrt, caws a chracers a brechdanau, yn ogystal â bwyd sylfaenol fel bara, grawnfwyd a llaeth, eu storio yng ngheginau'r wardiau. Cynigir byrbrydau yn ystod y rowndiau diodydd canol bore a chanol prynhawn, ond gall cleifion ofyn am fyrbrydau gan staff nyrsio ar unrhyw adeg o'r dydd. Gwelsom fod y byrbrydau hyn ar gael yn ystod ein hymweliadau ward.

**28.** Mae'r archwiliadau cydymffurfiad 360 gradd yn monitro argaeledd byrbrydau a diodydd, ac nid yw archwiliadau diweddar wedi nodi unrhyw broblemau. Canfu archwiliad Hanfodion Gofal 2014 bod wardiau'n cydymffurfio'n llawn o ran darparu amrywiaeth o fyrbrydau i gleifion sy'n methu prydau bwyd neu a oedd yn llwglyd rhwng prydau bwyd, ac roedd 97 y cant o gleifion yn derbyn bwyd a byrbrydau maethlon bob amser neu fel rheol.

**29.** Mae'r safonau ar gyfer bwyd a diodydd cleifion yn nodi y dylai fod saith neu wyth o rowndiau diodydd bob diwrnod, yn cynnig diodydd poeth ac oer, ac y dylid newid jygiau dŵr dair gwaith y dydd. Canfu archwiliad Hanfodion Gofal 2014 bod dŵr yfed ffres ar gael ac o fewn cyrraedd cleifion ac roedd pedwar o bob pum ward yn newid jygiau dŵr dair gwaith y dydd. Fodd bynnag, dim ond 30 y cant o wardiau gyflawnodd y saith neu fwy o rowndiau diodydd bob dydd. Fe'n hysbyswyd gan reolwyr ward yn ystod ein hymweliadau ward eu bod wedi ymrwymo i gynnig saith i wyth diod bob dydd a bod jygiau dŵr yn cael eu newid tair gwaith y dydd fel rheol.

## Caiff eitemau bwydlen eu hasesu'n faethol trwy fframwaith bwydlenni Cymru gyfan y mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio ag ef

**30.** Canfuwyd gennym yn 2010 bod deietegwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio bwydlenni ym mhob ysbyty, ond nad oedd bwydlenni pob ysbyty wedi cael eu hasesu ar gyfer maeth. Yn y Bwrdd Iechyd, roedd gwasanaethau deieteteg ac arlwyo wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y fwydlen yn adlewyrchu anghenion a dymuniadau cleifion. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan, sy'n nodi'r 12 maetholyn gofynnol i'w dadansoddi. Nododd y Bwrdd Iechyd ei fod yn cydymffurfio'n llawn â fframwaith bwydlenni Cymru gyfan gan ddefnyddio'r ryseitiau yn y gronfa ddata i gynllunio'r fwydlen i gleifion. Mae'r Grŵp Llywio Maeth, Hydradu ac Arlwyo yn sicrhau bod bwydlenni'n bodloni gofynion ynni a maethol gofynnol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at grŵp fframwaith bwydlenni Cymru gyfan lle y trafodir cydymffurfiad â'r fframwaith bwydlenni a safonau arlwyo a

maeth, yn ogystal â sut y maent wedi'i gynnwys mewn dulliau adrodd cyfredol gyda sefydliadau GIG.

**31.** Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cyfrannu at grŵp cynghori ar nwyddau Cymru gyfan, yn gweithio gyda'r deietegydd caffael wedi'i leoli ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG, i sicrhau bod cyflenwyr bwyd yn darparu gwybodaeth maeth am eu cynhyrchion i asesu cydymffurfiad â safonau maeth.

### Mae gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion am yr hyn i'w ddisgwyl yn yr ysbyty ar gael

**32.** Mae Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan 2011 yn ei gwneud ei eglur y dylid darparu gwybodaeth i gleifion a gofalwyr ar yr hyn i'w ddisgwyl o ran prydau a byrbrydau yn ystod eu hamser yn yr ysbyty. Yn 2012, cyhoeddodd y Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru lythyr ar y cyd yn ymwneud ag arlwyo a bwydydd mewn ysbytai. Roedd yn gofyn i gyrff GIG roi'r wybodaeth a nodir yn nhaflen '**Bwyta'n Dda yn yr Ysbyty – Yr Hyn y Dylech ei Disgwyl**' yr Archwilydd Cyffredinol i gleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi'r daflen hon i gleifion, a chadarnhawyd hyn gan staff wardiau. Yn Nhrefyclo, roedd gwybodaeth fanwl am bwysigrwydd maeth a hydradu wedi'i harddangos ar y ward hefyd.

## Ceir lle i wella profiadau amser bwyd i gleifion o hyd

**33.** Yn 2010, cynigiodd y rhan fwyaf o ysbytai ddewis priodol o brydau ac roedd cleifion yn gyffredinol fodlon â'r bwyd iddynt ei dderbyn. Fodd bynnag, ni chafodd yr holl gleifion yr help yr oedd ei angen arnynt a gellid gwneud mwy i ymsefydlu egwyddorion amser bwyd wedi'i ddiogelu ar rai wardiau. Roedd gwahanol arferion amser bwyd wedi'i ddiogelu ar waith yn y Bwrdd Iechyd ac roedd angen gwell arwyddion. Roedd cymorth yn ystod amser bwyd yn amrywio hefyd. Roedd gwasanaethau arlwyo yn cynnig dewis ac yn ymateb yn effeithiol i ddiwallu anghenion unigolion.

**34.** Canfu ein harchwiliad dilynol yn 2014 bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno amser bwyd wedi'i ddiogelu ar bob safle, ond roedd amrywiad o ran cydymffurfiad o hyd. Mae Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol a gynhaliwyd gan AGIC ar draws y Bwrdd Iechyd wedi codi problemau tebyg o ran profiadau amser bwyd cleifion. Mewn Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol diweddar yn Ysbyty Coffa'r Rhyfel Llanidloes a'r Cyffiniau, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o drefn na chyfeiriad gan y staff cyfrifol ar y pryd i sicrhau bod cleifion yn cael eu paratoi'n briodol ar gyfer amser prydau.

### Mae cleifion yn gadarnhaol am wasanaethau bwyd yn gyffredinol

**35.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu cylch bwydlenni pythefnos ar hyn o bryd, ac eithrio Ysbyty Trefyclo lle mae cylch bwydlenni tair wythnos ar waith. Canfu adroddiad Hanfodion Gofal 2014 bod cleifion yn fodlon iawn gydag argaeledd ac ansawdd bwyd a diod; roedd 97 y cant o gleifion yn teimlo eu bod yn derbyn bwyd a byrbrydau

maethlon bob amser neu fel rheol yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty. Ac ni dderbyniodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gwynion ffurfiol am fwyd yn ystod 2014-15.

**36.** Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn darparu unrhyw fwydlenni copi caled wedi'u hargraffu wrth erchwyn gwelyau cleifion ar hyn o bryd. Yn hytrach, mae fersiwn wedi'i hargraffu ar gael i nyrsys ei darllen i'r claf.

## Caiff cleifion eu cynorthwyo'n dda amser prydau bwyd, ond gellir gwneud mwy i baratoi amgylchedd y ward

**37.** Nododd ein gwaith dilynol yn 2014 gynnydd sylweddol o ran y trefniadau cymorth arlwyo a maeth yn y Trallwng. Canfu Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol a gynhaliwyd yn yr ysbyty ym mis Ionawr 2015 bod cynnydd wedi cael ei gynnal, gyda chymorth da gan staff yn ystod amser bwyd cleifion a help yn cael ei gynnig i gleifion oedd ei angen. Fodd bynnag, gellid gwella paratoad y ward cyn amser prydau bwyd. Ym mis Chwefror 2015, amlygodd Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol AGIC yn Ysbyty Coffa'r Rhyfel Llanidloes a'r Cyffiniau broblemau gyda lefel yr help i gleifion baratoi ar gyfer amser bwyd. Yn benodol, ni chynigiwyd llieiniau gwlyb i'r cleifion ac ni chawsant eu hannog i olchi eu dwylo cyn prydau, ac ni roddwyd prydau bwyd o fewn cyrraedd rhwydd.

**38.** Gwelsom wasanaethau pryd amser cinio yn y pedwar ysbyty cymuned, lle cynhaliwyd yr adolygiad o nodiadau achos gennym. Canfuwyd gennym:

- Fod staff nyrsio'n rheoli'r gwasanaeth pryd bwyd ac yn dangos gwybodaeth am anghenion maeth a dymuniadau deietegol y cleifion ac yn helpu i dorri bwyd ac agor pecynnau. Roedd staff nyrsio hefyd yn annog cleifion i fwyta, gan eu temtio gyda gwahanol ddewisiadau o brydau pan roeddent yn gwrthod pryd poeth.
- Bod y cyfnod gweini bwyd yn hamddenol ac yn rhedeg yn esmwyth gan greu amgylchedd cadarnhaol i gleifion. Gwnaed defnydd da o ystafelloedd dydd ar gyfer gweini prydau bwyd, er y gellid gwella ystafell ddydd y Trallwng gan nad yw'n groesawgar i gleifion.
- Bod cymorth gan staff domestig yn briodol, gan alluogi staff nyrsio i gynorthwyo cleifion a oedd angen cymorth, ac eithrio Trefyclo, lle nad oedd staff domestig wedi'u hymgysylltu. Y polisi ym Mhowys yw i staff domestig gefnogi amser bwyd gan nad oes unrhyw gynorthwywyr arlwyo yn gweithio ar lefel ward.
- Bod y system hambwrdd coch i nodi cleifion sydd angen cymorth yn cael ei defnyddio ar yr holl wardiau yr ymwelwyd â nhw. Roedd uwch nyrsys yn sicrhau bod aelod o'r staff nyrsio yn gweini'r prydau hyn er mwyn cynnig cymorth prydlon.

**39.** Canfu archwiliad Hanfodion Gofal 2014 bod holl aelodau'r tîm nyrsio yn cymryd rhan mewn gwasanaethau amser bwyd ar 80 y cant o wardiau, tra bod nyrs gofrestredig yn cydgysylltu'r gwasanaeth prydau bwyd 90 y cant o'r amser. Ar y pedair ward i ni ymweld â nhw, fe'n hysbyswyd gan staff nyrsio eu bod yn croesawu ac yn annog teulu a ffrindiau i helpu cleifion amser bwyd. Gwelsom deuluoedd yn helpu eu perthnasau i fwyta yn nhri o'r pedwar ysbyty cymuned i ni ymweld â nhw.

**40.** Mae Arddangosyn 2 yn cyflwyno canlyniadau ein hymweliadau amser bwyd â phedwar ysbyty cymuned. Mae ein harsylwadau yn seiliedig ar y gweithgareddau yr oeddem yn disgwyl eu gweld a pha un a oedd y gweithgareddau hyn yn berthnasol i bob claf, y mwyafrif o gleifion neu ddim cleifion. Ni chofnodir tymheredd bwyd ar lefel ward, ond caiff tymheredd ei wirio a'i gofnodi cyn i brydau adael y gegin. Mae'r perygl y bydd y prydau bwyd hyn yn is na'r tymheredd gofynnol yn isel.
Plygiwyd trolïau bwyd i mewn cyn gynted ag yr oeddent yn cyrraedd y wardiau, er mwyn cynnal tymheredd y bwyd. Dechreuodd pob cyfnod gweini prydau bwyd yn brydlon.

Arddangosyn 2: Camau allweddol a welwyd yn rhan o'r cyfnod gweni amser cinio

| **Arsylwadau o'r cyfnod gweini amser cinio** | **Aberhonddu** | **Trefyclo** | **Llandrindod** | **Y Trallwng** |
|---|---|---|---|---|
| Cynorthwyir cleifion i baratoi ar gyfer amser bwyd, gan gynnwys defnyddio'r toiled, golchi dwylo ac eistedd i fyny neu gael allan o'r gwely | Mwyafrif | Pob | Pob | Pob |
| Caiff mannau/byrddau ar yr erchwyn eu clirio cyn gweini prydau | Pob | Pob | Mwyafrif | Mwyafrif |
| Caiff gwastraff clinigol ei glirio o fannau/byrddau ar yr erchwyn | Pob | Pob | Mwyafrif | Pob |
| Mae staff y ward yn gwisgo dillad diogelwch | Pob | Pob | Pob | Pob |
| Nodir cleifion sydd angen help i fwyta yn rhwydd | Pob | Pob | Pob | Pob |
| Caiff prydau eu gadael o fewn cyrraedd i gleifion | Pob | Pob | Pob | Pob |
| Rhoddir help i dorri bwyd neu i agor pecynnau | Pob | Pob | Pob | Pob |
| Mae cleifion sydd angen help yn ei dderbyn yn brydlon | Pob | Pob | Pob | Pob |
| Mae staff nyrsio'n goruchwylio ac yn annog cleifion i fwyta trwy gydol amser bwyd | Pob | Mwyafrif | Pob | Pob |

Ffynhonnell: Arsylwadau Swyddfa Archwilio Cymru o gyfnodau gweini cinio

**41.** Mae ein harsylwadau amser cinio, a nodir uchod, yn cyd-fynd â'r canfyddiadau o'r archwiliadau 360 gradd amlddisgyblaeth.

## Nid yw egwyddorion amser bwyd wedi'i ddiogelu wedi'u hymsefydlu ym mhobman

**42.** Nid oes gan y Bwrdd Iechyd bolisi amser bwyd wedi'i ddiogelu ar hyn o bryd, er bod cynlluniau i ddatblygu un i atgyfnerthu'r neges i'r staff am ei bwysigrwydd. Caiff cydymffurfiad ag amser bwyd wedi'i ddiogelu ei fonitro drwy'r broses archwilio 360 gradd ac nid nodwyd unrhyw broblemau.

**43.** Yn y pedwar ysbyty cymuned lle gwelsom brydau bwyd yn cael eu gweini, gwelsom arwyddion wrth fynedfeydd y wardiau yn esbonio diben amser bwyd wedi'i ddiogelu a phryd yr oeddent ar waith. Fodd bynnag, roedd yr arwyddion yn wahanol ym mhob safle ac nid oedd yn eglur bod croeso i ymwelwyr yn ystod amser bwyd i helpu'r cleifion i fwyta.

**44.** Gwelsom gydymffurfiad ag amser bwyd wedi'i ddiogelu wrth i weithgarwch clinigol nad oedd yn hanfodol dawelu ychydig cyn i'r cyfnod gweini prydau bwyd dechrau. Roedd y rheolwyr ward i ni gyfarfod â nhw yn hyderus bod amser bwyd wedi'i ddiogelu yn gweithio'n dda a bod cydweithwyr proffesiynol yn gefnogol o'r egwyddorion. Gwelsom nifer o broblemau yn Ysbyty Trefyclo (gweler isod), yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Canfuwyd y canlynol gennym yn ystod ein hymweliadau ward:

- Ar y cyfan, roedd staff gofal iechyd proffesiynol yn gadael y wardiau ar ddechrau'r cyfnod o weini bwyd, ac, os oedd yr aelodau staff hyn yn aros ar y ward, roedd cyn lleied o sgwrsio â'r cleifion a'r staff nyrsio â phosibl.
- Roedd wardiau ar gau i ymwelwyr yn ystod amseroedd bwyd. Yn Nhrefyclo, roedd ymwelwyr yn gallu dod i mewn i'r ward yn ystod y cyfnod gweini bwyd gan nad oedd y drws i'r ward wedi ei gau.
- Daeth gweithgareddau glanhau i ben yn ystod y cyfnod gweini bwyd. Yn Nhrefyclo, parhaodd gweithgareddau glanhau ar goridorau wardiau ond nid yn agos at erchwyn y cleifion.
- Yn Nhrefyclo, cynhaliwyd rownd feddyginiaeth yn ystod y cyfnod gweini bwyd. Gwnaethpwyd rheolwr y ward yn ymwybodol gennym, gan y tarfwyd ar gleifion yn ystod eu pryd er mwyn rhoi eu meddyginiaeth iddynt. Ar yr un ward, bu'n rhaid i nyrs a oedd angen cymorth i ofalu am glaf sâl aros cyn i'r rownd feddyginiaeth gael ei chwblhau. Roedd yr holl aelodau staff eraill yn helpu cleifion i fwyta.

## Mae cost gwasanaethau arlwyo cleifion yn cynyddu er gwaethaf gostyngiad i archebion prydau bwyd, ac mae'r bwlch rhwng costau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion ac incwm yn rhy fawr o hyd

**45.** Roedd gwybodaeth ariannol am wasanaethau arlwyo yn wael fel rheol yn 2010, a phan roedd ar gael, roedd yn dangos amrywiadau sylweddol o ran costau o fewn a rhwng sefydliadau GIG. Prin oedd yr ysbytai a oedd yn cynhyrchu digon o incwm i adennill yr holl gostau o ddarparu gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion a phrin oedd y cyrff GIG a oedd â pholisi cymhorthdal wedi ei gytuno. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylid datblygu model eglur ar gyfer costio gwasanaethau arlwyo ar gyfer cleifion ac nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion. Yn 2012, cytunodd cyrff GIG yng Nghymru ar y cyd i gyflwyno model wedi'i gostio newydd ar gyfer gwasanaethau arlwyo yn rhan o'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau wedi'i hategu gan ddiffiniadau data diwygiedig. Prin fu'r cynnydd a wnaed o ran troi systemau arlwyo ysbytai'n gyfrifiadurol ac roedd mwyafrif y systemau gwybodaeth arlwyo yn dibynnu ar brosesau papur.

**46.** Ar yr un pryd, roedd cyrff GIG yn mabwysiadu mesurau i reoli costau gwasanaethau arlwyo. Fodd bynnag, roedd lle i wneud mwy o ddefnydd o ryseitiau wedi'u costio safonol, cytuno ar lwfansau bwyd a diod i gleifion, safoni contractau arlwyo lleol a lleihau lefelau gwastraff bwyd, a oedd yn annerbyniol o uchel. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai sefydliadau GIG geisio sicrhau nad yw gwastraff yn fwy na 10 y cant. Wedi hynny, pennwyd targed gwastraff bwyd o 10 y cant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prydau heb eu gweini, i'w gyrraedd erbyn diwedd 2012-13.

**47.** Argymhellodd ein hadolygiad yn 2010 y dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno polisi cymhorthdal a chryfhau trefniadau rheoli perfformiad ac ariannol gan nad oedd gwybodaeth ariannol yn ddigon da i gefnogi rheolaeth effeithiol o ddydd i ddydd. Canfuwyd gennym yn 2014 bod gwybodaeth gyffredinol ar draws y gorfforaeth am gostau arlwyo wedi gwella. Fodd bynnag, roedd rheolaeth gwasanaethau arlwyo wedi cael ei datganoli i dimau rheoli ardal, a arweiniodd at wybodaeth gymharol lai prydlon am arbedion cost. Canfuwyd gennym hefyd bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno dull newydd o brisio bwyd nad yw ar gyfer cleifion a bod costau arlwyo cleifion wedi cynyddu ar gyfradd fwy na chwyddiant.

### Mae costau prydau cleifion yn cynyddu ac roeddent yn fwy na'r targed beunyddiol er gwaethaf gostyngiadau i nifer y ceisiadau am brydau

**48.** Mae cyflwyniadau data'r Bwrdd Iechyd i'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn rhwng 2011-12 a 2013-14 wrth i gostau gwasanaethau prydau bwyd cleifion gynyddu 9.5 y cant, o £1.33 miliwn i £1.47 miliwn (Arddangosyn 3). Ar draws holl gyrff GIG, gostyngodd cost gwasanaethau arlwyo cleifion bump y cant. Mae ein dadansoddiad o ddata'r System

Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau yn awgrymu bod costau arlwyo cleifion wedi cynyddu oherwydd cynnydd i gostau darparu cleifion. Fodd bynnag, gostyngodd nifer y prydau cleifion y gofynnwyd amdanynt wyth y cant o 257,471 pryd yn 2011-12 i 237,308 miliwn o brydau yn 2013-14. Ledled Cymru, gostyngodd nifer y prydau y gofynnwyd amdanynt bedwar y cant. Dywedodd y Bwrdd Iechyd bod trefniadau lle mae Rheolwyr Busnes Ardal yn gyfrifol am gyllidebau arlwyo yn ei gwneud yn anodd gwahaniaethu costau darparu. Mae costau darparu yn seiliedig ar fwydydd sy'n cael eu caffael yn hytrach na'r hyn a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prydau.


Arddangosyn 3: Mae costau gwasanaethau arlwyo cleifion yn cynyddu

| **Blwyddyn** | **Cost gwasanaethau arlwyo (£ miliwn)** | |
|---|---|---|
| | **Powys** | **Cymru** |
| 2011-12 | 1.33 | 38.95 |
| 2012-13 | 1.42 | 37.26 |
| 2013-14 | 1.47 | 36.97 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru 2012-13 a data ategol 2014-15

**49.** Canfu ein gwaith archwilio diweddaraf bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n unol â chost pryd targed beunyddiol o ddim mwy na £4.50 y claf. Fodd bynnag, cynyddodd y gost fesul pryd claf o £5.19 yn 2011-12 i £6.23 yn 2013-14, sydd 38 y cant yn uwch na'r targed. Mae'r gost fesul claf yn amrywio rhwng safleoedd ysbyty ac nid yw'r un o'r ysbytai yn agos at y gost darged feunyddiol (Arddangosyn 4).

Arddangosyn 4: Mae costau fesul pryd claf y Bwrdd Iechyd yn llawer uwch na'r targed




Ffynhonnell: Data ategol 2013-14 dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru

**50.** Roedd trefniadau cynhyrchu bwyd y Bwrdd Iechyd yn dibynnu'n drwm ar systemau papur yn hytrach nag ateb TG yn 2010, er ei fod yn gweithio i roi system ar waith. Canfu ein gwaith dilynol yn 2014 bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud y penderfyniad i beidio â chyflwyno'r system TG. Yn ei adroddiad cenedlaethol yn 2011, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai cyrff GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, ac mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG wedi datblygu achos busnes amlinellol i gaffael ateb TG cenedlaethol ar gyfer arlwyo. Canfu ein harchwiliad diweddaraf bod cyrff GIG, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd, wedi gwneud sylwadau ar yr achos busnes amlinellol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl am y canlyniad cyn gwneud unrhyw benderfyniadau am fuddsoddiad mewn ateb TG lleol yn y dyfodol.


**51.** Lansiwyd Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan ym mis Ionawr 2014 i gefnogi cyflwyniad safonau maeth ac arlwyo 2011. Caiff ryseitiau yn y fframwaith bwydlenni eu costio. Cydariannwyd penodiad deietegydd caffael yn gweithio ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG - Gwasanaeth Caffael gan yr holl fyrddau iechyd, er mwyn cefnogi datblygiad contractau caffael Cymru gyfan i ddod o hyd i fwydydd ar gyfer y seigiau yn y fframwaith bwydlenni. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at grŵp fframwaith bwydlenni Cymru gyfan a grŵp nwyddau Cymru gyfan i ddatblygu materion caffael, gan gynnwys datblygu contractau i gael gafael ar gynnyrch lleol gan gyflenwyr lleol.

## Mae gwastraff bwyd heb ei weini yn bodloni'r targed cenedlaethol

**52.** Yn 2010, roedd lefelau gwastraff bwyd heb ei weini yn uchel ar rai wardiau ar draws y Bwrdd Iechyd ac roedd angen gwelliannau i fesur gwastraff bwyd heb ei weini yn gywir. Caiff lefelau gwastraff eu hadolygu yn rhan o'r dull archwilio 360 gradd. Mae'r dull archwilio yn ystyried gwastraff ar draws y gadwyn fwyd gyfan, gan ddechrau gyda chynhyrchu prydau bwyd i'r pwynt terfyn o'i weini i gleifion. Mae gwastraff plât wedi'i gynnwys hefyd. Caiff staff eu hyfforddi i arsylwi gwastraff, a chynnal perthynas waith agos gyda wardiau. Oherwydd maint llawer o safleoedd yr ysbytai, gwneir hyn trwy berthynas waith agos rhwng staff wardiau a'r adran arlwyo. Mynegir gwastraff fel canran o'r holl fwyd sy'n cael ei baratoi.
Canfu arolwg y Bwrdd Iechyd o wastraff bwyd yn 2014-15 mai 9.9 y cant oedd canran y gwastraff bwyd, sy'n bodloni'r targed cenedlaethol ar gyfer gwastraff bwyd heb ei weini. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal arolwg gwastraff ar sampl o wardiau i gefnogi cyflwyniad data'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau.
Mae'r arolwg yn cynnig cipolwg yn seiliedig ar ddognau heb eu gweini o'r brif saig fwyd.

**53.** Mae dadansoddiad o ddata 2013-14 y System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau yn dangos mai £97,793 oedd cost prydau bwyd heb eu gweini, sy'n cyfateb i chwech y cant o gyfanswm costau arlwyo'r Bwrdd Iechyd. Ledled Cymru, roedd cost prydau heb eu gweini yn ddau y cant o gyfanswm y costau arlwyo. Roedd amrywiadau mawr o ran cost gwastraff rhwng ysbytai'r Bwrdd Iechyd. (Arddangosyn 5). Ym Mronllys, roedd cost prydau heb eu gweini £35,000, mwy na un rhan o dair (36 y cant) o gyfanswm cost y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwastraff.

Arddangosyn 5: Mae cost gwastraff bwyd yn amrywio’n seithblyg ar draws ysbytai’r Bwrdd Iechyd




Ffynhonnell: Data ategol 2014-15 dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyfleusterau Ystadau’r GIG yng Nghymru

## Mae gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion yn gwneud colled ac, er ei bod yn gostwng, mae lefel y cymorthdaliadau yn dal i fod yn rhy fawr

**54.** Yn 2010, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd bolisi cymhorthdal ar waith ar gyfer gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion. Ar yr adeg honno, roedd gwasanaethau arlwyo yn gwneud cymhorthdal i brydau bwyd staff o £73,000 ar gyfer bwydydd yn unig. Fodd bynnag, nid oedd costau staff wedi’u cynnwys yng nghyfanswm y gost o ddarparu prydau staff a’r pris gwerthu dilynol. Ar yr adeg honno, argymhellwyd gennym y dylai’r Bwrdd Iechyd wneud penderfyniad ar y dull o wneud cymorthdaliadau ar gyfer prydau bwyd staff a phrisio prydau bwyd staff.


**55.** Erbyn adeg ein gwaith dilynol yn 2014, roedd y Bwrdd iechyd wedi cyflwyno dull newydd ar gyfer prisio bwyd nad yw’n gysylltiedig â chleifion a oedd yn sicrhau bod prisiau’n cael eu hail-gyfrifo’n rheolaidd. Mae saith safle ysbyty wedi rheoli tiliau arian parod electronig o bell, sy’n gallu diweddaru prisiau’n awtomatig. Nododd polisi tarfid arlwyo nad yw’n gysylltiedig â chleifion ddisgwyliadau eglur y dylai gwasanaethau

arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion mantoli'r gyllideb o leiaf, neu wneud elw hyd yn oed, i gydbwyso costau arlwyo cleifion, gan sicrhau nad oedd y Bwrdd Iechyd yn rhoi cymhorthdal i'r gwasanaethau hyn yn fwriadol.

**56.** Ledled Cymru, nid oedd yr incwm a gynhyrchwyd o wasanaethau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion yn ddigonol i adennill costau (Arddangosyn 6). Ym Mhowys, £139,212 oedd cost gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion yn 2013-14, ac adenillwyd ychydig dros hanner (56 y cant) y costau hyn. Mae'r diffyg incwm yn cyfateb i gymhorthdal o tua £60,000 ond mae hon yn gyfran fach iawn (tri y cant) o'r diffyg cyffredinol ar draws Cymru. Mae'r bwlch rhwng costau gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion a'r incwm a gynhyrchir yn lleihau (Arddangosyn 7).

**57.** Mae dadansoddiad o ddata'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau yn awgrymu bod costau darparu ar gyfer gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion wedi gostwng 15 y cant o £52,844 yn 2012-13 i £44,797 yn 2013-14, tra bod costau staff nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion wedi gostwng 20 y cant o £106,674 i £85,191. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fod yn ymchwilio i ffyrdd o wella proffidioldeb a lleihau lefel y cymhorthdal.

Arddangosyn 6: Nid yw sefydliadau'r GIG yn cynhyrchu digon o incwm i adennill cost gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion; er mai Powys sydd â'r bwlch incwm mwyaf, dim ond tri y cant o'r diffyg cyffredinol ar draws Cymru yw hwn




Ffynhonnell: Data ategol 2014-15 dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru

Arddangosyn 7: Mae incwm a chostau o wasanaeth arlwyo nad yw'n gysylltiedig â chleifion y Bwrdd Iechyd yn gostwng

| Blwyddyn | Powys | | |
|---|---|---|---|
| | Cost gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion | Incwm a sicrhawyd | % y gost na chafodd ei hadennill recovered |
| 2011-12 | 263,838 | 80,966 | 69% |
| 2012-13 | 163,846 | 79,273 | 52% |
| 2013-14 | 139,212 | 78,400 | 44% |

Ffynhonnell: Data ategol 2014-15 dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru

# Mae angen i drefniadau ar gyfer adrodd ar arlwyo a maeth mewn ysbytai wella

**58.** Yn 2010, roedd bodolaeth strategaethau a chynlluniau cyfredol i roi effaith i bolisïau cenedlaethol o ran arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn ddarniog, ac roedd angen cytgordio trefniadau mewn sawl corff GIG ar ôl ad-drefnu'r GIG yn 2009. Roedd angen dull mwy cynhwysfawr a chydgysylltiedig i ofyn am sylwadau cleifion a theuluoedd i hysbysu cynlluniau a datblygiadau. Roedd byrddau'r GIG yn derbyn gwybodaeth gyfyngedig am ddarpariaeth a pherfformiad gwasanaethau arlwyo a materion yn ymwneud â maeth cleifion. Nid oedd gwybodaeth o sgrinio maeth yn cael ei chasglu i ddeall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau. Gallai atebolrwydd gweithredol am arlwyo a maeth fod wedi bod yn fwy eglur mewn rhai cyrff GIG.

**59.** Roedd atebolrwydd gweithredol am arlwyo a maeth yn eglur yn y Bwrdd Iechyd ar yr adeg honno. Fodd bynnag, nid oedd fframwaith cyffredin ar gyfer gwasanaethau maeth ac arlwyo. Prin oedd y wybodaeth yr oedd y Bwrdd yn ei derbyn am y gwasanaethau hyn. Roedd dulliau ar gyfer casglu adborth cleifion yn anffurfiol ar y cyfan ac nid oedd unrhyw drefniadau ar waith i gynnwys grwpiau cleifion yn y gwaith o gynllunio, tra bod cyfranogiad cleifion mewn profi bwydlenni ac adolygiadau ansawdd yn gyfyngedig iawn hefyd. Canfu ein gwaith dilynol yn 2014 bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno Strategaeth Maeth ac Arlwyo tair blynedd yn 2011, a oedd wedi'i halinio â'r fframwaith cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd cyfleoedd o hyd i gynnwys adborth cleifion yn rhan o'r archwiliadau 360 gradd newydd a gynhaliwyd ar lefel ward.

## Mae trefniadau ar waith i sicrhau y rhoddir polisïau a safonau cenedlaethol ar waith ond mae strwythurau llywodraethu'n cael eu hadolygu

**60.** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei Strategaeth Maeth ac Arlwyo, ac mae'n disgwyl iddi gael ei chymeradwyo ym mis Medi. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd yn darparu gwasanaethau maeth ac arlwyo o ansawdd uchel. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi dull amlddisgyblaeth o ddiwallu anghenion maeth a hydradu cleifion a phwysleisir y dull hwn yn y Strategaeth.

**61.** Mae'r Grŵp Llywio Maeth, Hydradu ac Arlwyo yn parhau i roi sicrwydd a throsolwg o'r ddarpariaeth o wasanaethau maeth ac arlwyo. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Cyfleusterau a Thrafnidiaeth yn cadeirio'r Grŵp ac fe'i cefnogir gan Uwch Nyrs Ardal, sy'n cyflawni swyddogaeth dirprwy gadeirydd. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru gyfan, yn ogystal â pholisïau cenedlaethol eraill, cyfarwyddebau Llywodraeth Cymru ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol. Mae'r Grŵp yn cydgysylltu camau gweithredu a gwelliannau o ran gofal maeth ac arlwyo. Mae'n atebol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch trwy'r Is-bwyllgor Gwella Cyfranogiad a Phrofiad Cleifion ar hyn o bryd. Mae cyfarfodydd yr is-bwyllgor wedi cael eu gohirio tra bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei drefniadau ar gyfer goruchwylio ac adrodd ar brofiad y claf. Mae'r Grŵp yn paratoi adroddiad blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a disgwylir iddo gael ei gyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn.

**62.** Mae llinellau atebolrwydd yn eglur, a'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd sydd ag atebolrwydd terfynol am bob agwedd ar ofal cleifion. Y Cyfarwyddwr Nyrsio yw'r aelod neilltuedig o'r Bwrdd sy'n gyfrifol am faeth cleifion. Mae'r swyddogaeth hon yn sicrhau adrodd i'r Bwrdd mewn cysylltiad â'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymuned, sydd â chyfrifoldeb gweithredol am wasanaethau arlwyo ledled Powys. Y Cyfarwyddwyr Gweithredol hyn sy'n gyfrifol am sicrhau bod systemau a phrosesau priodol ar waith i sicrhau safonau uchel o ofal a darpariaeth gwasanaethau. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Cyfleusterau a Thrafnidiaeth yn atebol i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymuned ac mae'r uwch nyrs ardal yn atebol i'r Cyfarwyddwr Nyrsio.

**63.** Ar adeg ein harchwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd yn lansio ymgynghoriad ar strwythur rheoli cyfleusterau. Nododd yr adolygiad strwythurol mawr diweddara fod llawer o'r swyddogaethau yn yr adran gyfleusterau, a gwasanaethau gwesty yn bennaf, yn gweithredu bron yn annibynnol ar Bennaeth y Gwasanaethau Cyfleusterau a Thrafnidiaeth. Mae hyn wedi arwain at ddarnio o ran sut y caiff gwasanaethau eu cydgysylltu a'u rheoli.

## Mae gwaith adrodd y Bwrdd yn dibynnu ar yr Archwiliad Hanfodion Gofal

**64.** Ar hyn o bryd, nid yw gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth, gan gynnwys adborth cleifion, yn cael ei hadrodd i'r Bwrdd fel mater o drefn. Yn hytrach, mae'r Bwrdd yn derbyn yr hunanasesiad blynyddol yn erbyn y safonau iechyd a gofal a'r archwiliad Hanfodion Gofal. Mae hyn yn golygu nad yw'r Bwrdd yn cael ei hysbysu

am y gwaith a wneir i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaethau arlwyo a maeth o ansawdd da neu gydymffurfiad sefydliadol â Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru gyfan a’r llwybr gofal maeth. Mae adrodd i’r Bwrdd ar brofiad cleifion o ran arlwyo a maeth hefyd wedi’i gyfyngu i adroddiad yr archwiliad Hanfodion Gofal blynyddol.

**65.** Mae’r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i ddiweddaru’r Bwrdd erbyn hyn ar gynnydd a wnaed o ran gwasanaethau maeth, hydradu ac arlwyo ymhlith aelodau’r Bwrdd. Mae’r Cyfarwyddwr Nyrsys wedi drafftio adroddiad i ddiweddaru’r Bwrdd ar waith i wella gofal cleifion o ran maeth, hydradu ac arlwyo, gan gynnwys canfyddiadau o’r archwiliadau 360 gradd. Er bod yr adroddiad yn cynnig disgrifiad cynhwysfawr o’r gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw, nid yw’n cynnwys mesurau perfformiad penodol na gwybodaeth am adborth neu ganlyniadau cleifion.

**66.** Caiff cydymffurfiad â gwaith sgrinio maeth ei fonitro gan dimau nyrsio ardal ond nid yw wedi’i gynnwys ar ddangosfwrdd perfformiad y Bwrdd Iechyd. Mae’r Bwrdd Iechyd yn adnewyddu’r dangosyddion ansawdd y mae’n eu cyflwyno i’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac mae cydymffurfiad â sgrinio maeth yn cael ei ystyried fel un o’r dangosyddion. Nid yw gwybodaeth am wastraff bwyd a chostau gwasanaethau arlwyo yn cael eu hadrodd ar lefel gorfforaethol chwaith. Yn hytrach, mae costau a gwastraff yn parhau i gael eu monitro a’u hadrodd ar lefel ardal, y tu allan i reolaeth uniongyrchol Pennaeth y Gwasanaethau Cyfleusterau a Thrafnidiaeth.

**67.** Fel cyrff GIG eraill, nid yw’r Bwrdd Iechyd eto wedi casglu gwybodaeth reolaeth o sgrinio maeth i ddeall nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth wrth eu derbyn.

## Mae adborth cleifion i gefnogi’r gwaith o adrodd ar berfformiad yn gyfyngedig

**68.** Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno holiaduron bodlonrwydd cleifion yn ddiweddar, yn rhan o’r archwiliadau 360 gradd, a bydd y rhain yn cael eu cynnal eleni. Fodd bynnag, cesglir y rhan fwyaf o sylwadau cleifion trwy drefniadau anffurfiol, fel materion a amlygir gan staff nyrsio neu drwy gleifion ar wardiau. Nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau i gynnwys grwpiau cleifion yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau arlwyo eto, nac i gynnwys cleifion yn y gwaith o brofi bwydlenni ac adolygiadau ansawdd. Ceir dibyniaeth barhaus ar arolwg profiad y claf yr Hanfodion Gofal ar gyfer adroddiadau’r Bwrdd.

**69.** Fe’n hysbyswyd bod staff arlwyo a nyrsio mewn ysbytai lleol yn cydweithio’n agos, sy’n golygu y gellir rhoi sylw i unrhyw bryderon yn rhwydd. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Cyfleusterau a Thrafnidiaeth yn adnabyddus ymhlith staff yr ysbytai, ac mae ymweliadau rheolaidd ag ysbytai yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyfathrebiad wyneb yn wyneb.

**70.** Ar adeg ein gwaith maes, roedd grŵp fframwaith bwydlenni Cymru gyfan yn cynnal arolwg holiadur o gleifion mewnol ar draws holl gyrff y GIG am ddewis ac ansawdd y bwyd. Dosbarthodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfleusterau a Thrafnidiaeth 70 arolwg i gleifion ar draws yr holl ysbytai. Mae’r Bwrdd Iechyd yn aros am ddadansoddiad o ganfyddiadau’r arolwg, a ddisgwyliwyd ganol yr haf. Ledled Cymru, 54 y cant oedd y

gyfradd ymateb i'r arolwg o'i chymharu â 46 y cant yn y Bwrdd Iechyd. Unwaith y bydd canlyniadau'r arolwg ar gael, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu diwygio'r cylch bwydlenni ac opsiynau bwydlenni.

# Atodiad 1

## Dull yr archwiliad

Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn: 'A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'n llawn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer sicrhau gwelliannau o ran diwallu anghenion maethol cleifion a'u profiad adeg prydau bwyd, o ran rheoli costau arlwyo a chynllunio a monitro?' Cynhaliwyd nifer o weithgareddau archwilio gennym rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015 i ateb y cwestiwn hwn. Mae manylion y rhain isod.

### Cyfweliadau ac adolygu dogfennau

Cynhaliwyd nifer o gyfweliadau gydag unigolion allweddol yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys swyddogion, cynrychiolydd cleifion a rheolwyr wardiau. Aethom ati hefyd i adolygu nifer o ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau gan sefydliadau allanol perthnasol eraill ac ymateb y Bwrdd Iechyd i'r adroddiadau hyn.

### Dadansoddi data

Bu i ni ddadansoddi data'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau ar gyfer 2012-13 a 2014-15, sef y data mwyaf diweddar. Cyflwynodd cyrff y GIG ddata 2014-15 i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Ystadau Arbenigol ddiwedd mis Mehefin. Bydd y data hwn ar gael ddiwedd mis Tachwedd 2015.

### Arsylwi ar wardiau

Bu i ni arsylwi ar y gwasanaeth bwyd amser cinio mewn pedwar ysbyty cymuned, a ddewiswyd gennym i asesu:

- a oedd cleifion ac amgylchedd y ward yn cael eu paratoi ar gyfer amser bwyd;
- a oedd cleifion yn cael y pryd cywir;
- a oedd cleifion yn cael help i fwyta os oedd angen; ac
- a oedd cydymffurfiad ag amser bwyd wedi'i ddiogelu.

Ymwelwyd ag:

- Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod – Ward Claerwyn;
- Ysbyty Coffa'r Rhyfel Aberhonddu – Ward Epynt;
- Ysbyty Coffa Fictoria y Trallwng – Ward Maldwyn; ac
- Ysbyty Trefyclo – Ward Panpwnton.

### Adolygu nodiadau achos

Adolygwyd nodiadau cleifion gennym ar bob ward lle buom yn arsylwi ar y gwasanaeth bwyd amser cinio er mwyn asesu:

- a yw sgrinio maethol yn cael ei wneud gan ddefnyddio dull sgrinio dilys pan gaiff cleifion eu derbyn i'r ysbyty;

- a oedd gwybodaeth am bwysau, taldra, mynegai màs y corff (BMI), colli pwysau'n anfwriadol yn ddiweddar, archwaeth ar y pryd, cymeriant deietegol 'arferol', gofynion deietegol arbennig, y gallu i fwyta'n annibynnol, anawsterau wrth fwyta neu yfed a phroblemau gydag iechyd a hylendid y geg, yn cynnwys deintiad, wedi'i chofnodi; ac
- a oedd cynlluniau gofal ar waith ar gyfer y cleifion hynny a nodwyd fel rhai sydd â phroblemau maethol neu sydd â risg o'u datblygu, ac a gafodd cleifion a nodwyd fel rhai â risg eu hatgyfeirio am asesiad deietegol.

Dewiswyd y pum set o nodiadau achos a adolygwyd ar bob ward gan reolwyr y wardiau.

# Atodiad 2

## Argymhellion cenedlaethol a lleol

Mae Tabl 1 yn nodi'r saith argymhelliad lleol yn ein hadroddiad a oedd yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith archwilio yn 2010 ar wasanaethau arlwyo a maeth cleifion yn ysbytai'r Bwrdd Iechyd.

Yn rhan o'n gwaith dilynol yn 2014, cafodd nifer o argymhellion o 2010 eu cynnwys yn argymhellion 2014. Nid yw'r rhain wedi cael eu hailadrodd yn ein hargymhellion ar flaen yr adroddiad hwn felly. Mae statws pob argymhelliad[8] wedi'i nodi hefyd yn Nhablau 1, 2 a 3.

Tabl 1 – Argymhellion lleol 2010

| **Argymhelliad** | | **Statws ym mis Gorffennaf 2015** |
|---|---|---|
| **Trefniadau rheoli a chynllunio strategol** | | |
| A1 | Datblygu cynllun maeth ac arlwyo newydd erbyn Mawrth 2011 a fydd yn bodloni gofynion strategol y Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn y dyfodol. Dylai'r cynllun hwn:<br>• ymateb i'r pwysau ariannol, nawr ac yn y dyfodol;<br>• nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio'n integredig gyda Chyngor Sir Powys, o ran darparu gwasanaeth arlwyo ac o ran asesu maeth a chynorthwyo yn y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol ehangach; a<br>• rhoi mwy o sylw i ddiwallu anghenion maeth cleifion, yn arbennig cleifion mewnol hirdymor a chleifion Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a drosglwyddir o ysbytai cyffredinol dosbarth y tu allan i'r sir. | C |
| A2 | Dechrau rhoi'r Cynllun Gwella Arlwyo ar waith yn y Trallwng erbyn mis Hydref 2010. Adolygu'r galw am staff arlwyo yn erbyn y cyflenwad er mwyn gweld a ellir cyflawni arbedion effeithlonrwydd. | C |

[8] Mae (C) yn dangos bod yr argymhelliad wedi'i gyflawni, mae (A) yn dangos bod yr argymhelliad ar y llwybr iawn i gael ei gwblhau ac mae (N) yn dangos bod cynnydd annigonol neu ddim cynnydd wedi'i wneud.

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | | |
| A3 | Datblygu trefniadau rheoli perfformiad ac ariannol ar gyfer arlwyo a maeth erbyn Ionawr 2011. Dylai'r trefniadau:<br>• gynnwys systemau effeithlon ac addas i'r diben i adrodd ar ansawdd y gwasanaeth arlwyo ac amserau bwyd sy'n cynnwys safbwyntiau uniongyrchol y cleifion ac adolygiadau mewnol gan gymheiriaid; a<br>• chynnwys prosesau rheoli costau ac ariannol sylfaenol i alluogi monitro, rheoli ac adrodd ar y rhestr stoc, cost wirioneddol y nwyddau a ddefnyddiwyd, a'r galw am staff ar sail gweithgarwch yn erbyn cyflenwad. | O |
| A4 | Penderfynu ar y dull o ymdrin â chymhorthdal a phris prydau bwyd staff erbyn Tachwedd 2010. | C |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | | |
| A5 | Sicrhau bod y gwaith o weithredu'r system TG arlwyo yn cael ei gyflwyno fel prosiect ffurfiol a bod cynrychiolwyr amlddisgyblaethol priodol yn cymryd rhan fel bod y system yn:<br>• cynorthwyo'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth gweithredol yn effeithiol ac effeithlon;<br>• darparu ffordd well o archebu i gleifion er mwyn diwallu eu hanghenion maeth; ac yn<br>• gwella deallusrwydd/gwybodaeth rheolwyr a'u prosesau adrodd. | Amh. |
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad** | | |
| A6 | Sicrhau bod amser bwyd yn cael ei ddiogelu a bod cymorth effeithiol ar gael i gleifion yn ystod amserau bwyd ar bob safle erbyn Ionawr 2011. | A |
| A7 | Gwella'r amrywiaeth o fwyd sydd ar gael y tu allan i oriau arferol, a sicrhau bod stoc bwyd yn cylchdroi rhwng y ward a stoc y brif gegin er mwyn cyfyngu'r gwastraff o fwyd erbyn Ionawr 2011. | C |

Mae Tabl 2 yn nodi'r 26 argymhelliad cenedlaethol a nodwyd yn adroddiad 2011 yr Archwilydd Cenedlaethol, a oedd yn berthnasol i gyrff y GIG sy'n cynnig gwasanaethau arlwyo i gleifion.

Tabl 2 – Argymhellion cenedlaethol 2011

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu** | | |
| A1b | Dylai cyrff y GIG ddefnyddio'r canlyniadau a gyflwynwyd yn ein hadroddiadau archwilio lleol fel sail dros sicrhau eu bod yn gweithredu Llwybr Gofal Maeth Cymru gyfan yn effeithiol; yn benodol mae'n rhaid iddynt sicrhau bod prosesau sgrinio maethol yn nodi'n effeithiol bob claf sydd â phroblemau maeth, neu sy'n wynebu risg o'u datblygu, a bod cynlluniau gofal a gweithgareddau monitro priodol yn cael eu sefydlu. | C |
| A1c | Dylai cyrff y GIG archwilio cydymffurfiaeth â phob agwedd ar y llwybr gofal maeth yn rheolaidd ar bob un o'u safleoedd a rhannu canlyniadau'r ymarferion monitro â phob grŵp staff perthnasol sy'n ymwneud â gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion. | C |
| A1d | Lle nodir cydymffurfiaeth wael â gofynion y llwybr gofal maeth, dylai cyrff y GIG ganfod y rhesymau dros hyn, a rhoi cynlluniau gweithredu clir ar waith i fynd i'r afael â'r broblem; dylai hyn gynnwys rhoi hyfforddiant angenrheidiol i staff. | C |
| **Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu** | | |
| A1e | Dylai fod gan gyrff y GIG drefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd ar gael i gleifion 24 awr y dydd; dylai byrbrydau fod yn rhan o'r trefniadau hyn a dylai cleifion gael gwybod pa fyrbrydau sydd ar gael iddynt, a phryd. | C |
| A2a | Dylai cyrff y GIG gymryd camau i sicrhau bod pob bwydlen a ddefnyddir yn eu hysbytai wedi cael ei hasesu o ran maeth gan ddeietegwyr. | C |
| **Gwella profiad cleifion o amser bwyd** | | |
| A3a | Dylai cyrff y GIG Sicrhau bod eu bwydlenni yn cynnig dewis priodol o fwyd a bod y trefniadau ar gyfer archebu a gweini bwyd yn cefnogi dewis digonol i gleifion. | C |
| A3b | Dylai cyrff y GIG adolygu eu harferion ar lefel ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu helpu i fod yn gyfforddus cyn cael eu bwyd, ac yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn i'r pryd o fwyd gael ei weini. | C |
| A3c | Dylai cyrff y GIG barhau i gyflwyno'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu i gymaint o wardiau â phosibl, gan gyfleu ei bwysigrwydd i bob grŵp staff perthnasol sy'n gweithio yn yr ysbyty, ac adolygu cydymffurfiaeth â'r polisi'n rheolaidd. | A |

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | | |
| A4b | Dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, wedi'u hategu gan ddadansoddiad clir o gost a budd o'u cymharu â'r systemau gwybodaeth presennol â llaw. | N |
| A5a | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ryseitiau safonol wedi'u costio. | C |
| A5b | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o lwfans bwyd a diod dyddiol i gleifion. | C |
| A5c | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o gontractau arlwyo lleol safonol ar gyfer yr un cynhyrchion neu gynhyrchion tebyg ym mhob un o'u hysbytai. | C |
| A6a | Dylid pennu targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwastraff bwyd; fel canllaw dylai sefydliadau'r GIG anelu at sicrhau nad yw gwastraff o brydau bwyd nas gweinwyd yn fwy na 10 y cant. | C |
| A6b | Dylai cyrff y GIG fonitro gwastraff bwyd yn rheolaidd yn unol â chanllawiau clir ar yr hyn sy'n bryd o fwyd heb ei weini, a dylai'r wybodaeth hon gael ei ddefnyddio i lunio cymariaethau ystyrlon yn lleol ac yn genedlaethol. | C |
| A6c | Dylai'r gwaith o fonitro gwastraff bwyd gynnwys nodi'r rhesymau dros y gwastraff a welir, a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella systemau a phrosesau sy'n achosi'r gwastraff. | C |
| A6d | Dylai cyrff y GIG bwysleisio i'w staff fod rheoli gwastraff bwyd yn gyfrifoldeb ar bawb a dylai staff arlwyo a staff wardiau gydweithio i fynd i'r afael â'r broblem. | C |
| A7a | Dylai cyrff y GIG bennu polisïau prisio a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn adennill costau o leiaf, neu, os nad ydynt yn gwneud hynny, bod hynny o ganlyniad i bolisi cymorthdalu bwriadol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gostau. | A |
| A7b | Dylai cyrff y GIG fonitro incwm a gwariant ar wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn perfformio'n ariannol yn ôl y disgwyl ac nad oes diffygion ariannol annerbyniol. | A |

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol** | | |
| A8b | Dylai cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt gynlluniau a gweithdrefnau cyfoes sy'n nodi'r trefniadau lleol ar gyfer gweithredu gofynion polisi cenedlaethol a sicrhau bod gwasanaethau arlwyo a maeth, hyd y gellir, wedi'u safoni ar draws sefydliadau'r GIG, yn enwedig lle mae ad-drefnu'r GIG wedi dwyn ynghyd nifer o wahanol fodelau gwasanaeth o dan un sefydliad. | C |
| A8c | Dylai cyrff y GIG sicrhau fod cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr gweithredol dros arlwyo a maeth wedi'u diffinio'n glir, a lle mae dau neu fwy o gyfarwyddwyr gweithredol yn gyfrifol, dylai fod trefniadau penodol ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig. | C |
| A9c | Dylai cyrff y GIG sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ddata'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau fel ffordd o reoli a monitro eu gwasanaethau arlwyo a maeth. | C |
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol** | | |
| A10a | Dylai cyrff y GIG ddatblygu ffordd fwy cynhwysfawr o gofnodi perfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion i'r Bwrdd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am weithredu'r llwybr gofal maeth a data perfformiad ar gostau gwasanaethau i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, gwastraff bwyd, ac adborth gan gleifion a'u perthnasau; dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai wneud defnydd priodol o ddata meincnodi'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau. | A |
| A10b | Dylai cyrff y GIG goladu gwybodaeth o sgrinio maethol yn systematig am nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth er mwyn deall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau arlwyo a maeth i ddiwallu anghenion y cleifion hyn. | N |
| A11a | Dylai cyrff y GIG sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth am farn cleifion ar wasanaethau arlwyo rhwng prif nyrsys a'r gwasanaeth arlwyo. | C |
| A11b | Dylai cyrff y GIG ddangos sut y maent wedi ystyried barn cleifion wrth ddatblygu eu gwasanaethau arlwyo a maeth. | N |
| A11c | Dylai cyrff y GIG bennu ffyrdd o gynnwys cleifion mewn gweithgareddau sy'n asesu ansawdd gwasanaethau arlwyo a maeth. | N |

Mae Tabl 3 yn nodi'r pedwar argymhelliad lleol a wneir yn ein hadroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau o waith archwilio dilynol ar wasanaethau arlwyo ysbytai a maeth cleifion y Bwrdd Iechyd yn 2014.

Tabl 3 – Argymhellion lleol 2014

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu** | | |
| A1 | Cryfhau diliau archwilio 360 gradd° trwy:<br>• wneud gwaith dilynol ar yr archwiliadau 360 gradd° er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau gwella a nodwyd yn cael eu cymryd a'u hymsefydlu;<br>• sicrhau bod y gofynion a nodir yn adroddiad Ymddiried mewn Gofal yn cael eu rhoi ar waith; a<br>• chyflwyno dulliau adborth cleifion i hysbysu'r asesiad. | C |
| **Argymhelliad** | | **Statws ym mis Gorffennaf 2015** |
| **Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu** | | |
| A4 | Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni gofynion hyfforddiant maeth e-ddysgu cenedlaethol. Mae angen datrys materion fel mynediad at TG ac argaeledd staff ar gyfer hyfforddiant. | A |
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | | |
| A2 | Gwella'r hysbysu parhaus am gostau arlwyo ar lefel safle Bwrdd Iechyd i sicrhau:<br>• Bod costau cyffredinol a chostau fesul claf yn fwy cyson ar draws safleoedd ac yn agosach at gostau targed.<br>• Bod costau cynhyrchion ac adnoddau yn cael eu cyfnerthu a'u cydgysylltu'n well yn ganolog.<br>• Nad yw cyfanswm costau arlwyo yn uwch na'r gyllideb a fwriadwyd a bod gwelliannau cost yn cael eu cyflawni. Dylai gwelliannau cost ddod o well rheolaeth o wariant, gwastraff ac effeithlonrwydd, heb arwain at unrhyw ddirywiad i ansawdd y maeth a ddarperir i gleifion. | A |
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol** | | |
| A3 | Adolygu'r strategaeth Arlwyo a Maeth i sicrhau ei bod yn alinio ag unrhyw ofynion strategaethau a rhwydweithiau maeth newydd a'r argymhellion a nodir yn Ymddiried mewn Gofal. | C |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru